



Cytundeb Partneriaeth Iechyd Cyhoeddus, Plismona a Chyfiawnder Troseddol - Dogfen Cwestiynau Cyffredin

Pwy sy'n rhan o'r Bartneriaeth hon?

Mae'r partneriaid yn cynnwys:

- Y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r pedwar Prif Gwnstabl ar gyfer De Cymru, Gogledd Cymru, Dyfed-Powys a Gwent
- Cyfarwyddwr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru
- Prif Weithredwr Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Cyfarwyddwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, Cymru
- Cyfarwyddwr Cymru'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru

Beth yw hyd y bartneriaeth?

Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn gyfredol ac fe'i adolygir yn flynyddol gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan.

Sut y crëwyd y bartneriaeth hon?

Mae cydweithio rhwng Iechyd Cyhoeddus a Phlismaona wedi datblygu yng Nghymru dros y 18 mis diwethaf o ganlyniad i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) rhwng yr Heddlu a'r Comisiynydd Trosedd a Phrif Gwnstabl De Cymru gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r MoU gwreiddiol yn nodi manteision cydweithio er mwyn mynd i'r afael â llawer o'r problemau sy'n wynebu plismaona, cyfiawnder troseddol ac Iechyd Cyhoeddus, ac mae wedi arwain at waith sylweddol ar y cyd.

Mae'r Cytundeb Partneriaeth hwn yn disodli'r Cytundeb a wnaed rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Heddlu De Cymru ac mae'n ceisio cyflwyno newid i systemau a darpariaeth gwasanaeth integredig ledled Cymru trwy weithredu ac ymateb mewn modd unedig i faterion blaenoriaethol mewn plismaona, cyfiawnder troseddol a phartneriaid.

Beth yw nod y bartneriaeth hon?

I drawsnewid y broses o blismaona bregusrwydd i driniaeth wybodus o ACE sy'n aml-asiantaethol i sicrhau ymyrraeth gynnar ac atal achos gwreiddiol.

Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn nodi ymrwymiad partneriaid Iechyd Cyhoeddus Cymru, Plismaona a Chyfiawnder Troseddol i ddatblygu rhaglen waith ar y cyd sy'n anelu at adeiladu gwydnwch sefydliadol a chymunedol trwy ddull Iechyd Cyhoeddus, gan ddeall ac adnabod achosion gwreiddiol materion cyffredin sy'n effeithio ar blismaona, Iechyd a chyfiawnder

troseddol a dylunio, profi a gweithredu atebion cynaliadwy hirdymor.

A yw'r bartneriaeth hon yn ateb/yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfau cyfredol?

Mae deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ddeddfwriaethau sy'n blaenoriaethu cydweithio, integreiddio, cynllunio ac atal hir dymor er mwyn gwella lles pawb yng Nghymru, yn enwedig unigolion sy'n agored i niwed.

A yw'r Llywodraeth yn cefnogi'r bartneriaeth yma?

Mae'r Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn cefnogi egwyddorion y Cytundeb hwn ac uchelgais y partneriaid i gydweithio er mwyn cyflwyno newid ledled y system a darparu gwasanaethau integredig i wasanaethu teuluoedd a chymunedau ledled Cymru yn well.

Sut mae'r bartneriaeth a'r rhaglen yn cyd-fynd â'r agenda blismona gyffredinol?

Disgrifiodd Gweledigaeth Plismona 2025, a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2016, dirlun plismona sy'n gynyddol amrywiol a chymhleth ac sy'n galw am ddull mwy soffistigedig o fynd i'r afael â heriau newydd ac esblygol. P'un ai yn gamfanteisio'n rhywiol ar blant, trais a cham-drin yn y cartref, trosedd seiber neu fgythiadau newydd o drosedd difrifol a chyfundrefnol, masnachu mewn pobl neu derfysgaeth, mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod cydweithio ar draws y system yn allweddol i atal troseddau a diogelu pobl sy'n agored i niwed yn yr amgylchedd plismona modern.

Mae'r system iechyd cyhoeddus hefyd yn ceisio cydweithio pellach gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd - y ffactorau a all arwain pobl ar lwybr tuag at afiechyd a marwolaeth gynamserol.

Mae'r cytundeb hwn yn cydnabod bod Plismona ac Iechyd Cyhoeddus yn perthyn yn agos iawn. Yr Heddlu yw'r ymatebwyr cyntaf i ystod o sefyllfaoedd cymhleth sy'n ymwneud â materion troseddol, sifil a iechyd cyhoeddus. Gwyddom fod llawer o'r hyn y mae'r heddlu'n ymateb iddo yn cael ei gyfeirio at gynnal iechyd a lles, felly mae cymryd agwedd iechyd cyhoeddus yn darparu fframwaith defnyddiol er mwyn deall y ffactorau risg a'r conglifeini i fynd i'r afael â bregusrwydd a chynyddu gwydnwch ar hyd cwrs bywyd.

Beth mae'r Bartneriaeth hon yn ei olygu i gyflogai?

Byddwn yn datblygu dealltwriaeth o'r graddau y mae'r model gweithlu presennol yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu er mwyn creu gweithlu gyda'r sgiliau, ymddygiadau a'r diwylliant sydd eu hangen i gyflawni yn unol â blaenoriaethau cyffredin. Byddwn yn helpu i greu gweithlu gwydn, trwy gynyddu dealltwriaeth staff o'r asedau, y taclau a'r adnoddau o fewn ein cymunedau.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n gilydd trwy ailstrwythuro ac integreiddio systemau i wneud y mwyaf o'r effaith gadarnhaol ar les staff.

Beth fydd prif feysydd ffocws y bartneriaeth hon?

Rhannu, dadansoddi a gwerthuso data: ymchwil gadarn a thystiolaeth i lywio blaenoriaethau; sylfaen o dystiolaeth i ddeall manteision newid i gost ar gyfer sefydliadau a chymunedau; deall effeithiolrwydd ein gweithgareddau; diwylliant o rannu gwybodaeth.

Gweithio mewn partneriaeth: cydweithio â phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i fynd i'r afael â materion ar y cyd mewn modd ragweithiol.

Atal ac ymyrraeth gynnar: adnabod problemau cyffredin gyda ffocws penodol ar gymunedau bregus.

Mynd i'r afael â bregusrwydd trwy lens Profiadau Niweidiol mewn Plentynod (ACEs): datblygu gweithlu sy'n wybodus ynghylch ACE ar draws plismona a chyfiawnder troseddol yn ogystal ag iechyd; creu systemau i fynd i'r afael â bregusrwydd; cymhwyso lens ACE i strategaethau, cynlluniau busnes a blaenoriaethau.

Cefnogi pobl ac adeiladu gwytnwch cymunedol: datblygu dealltwriaeth o sut y gall nodweddion cymuned hyrwyddo cydlyniant a gwytnwch; gwell dealltwriaeth o gymunedau sy'n agored i bob math o drais.

Lles staff: datblygu dealltwriaeth o sut mae'r model gweithlu presennol yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu; helpu i greu gweithlu gwydn; cydweithio trwy ailstrwythuro ac integreiddio systemau.

Rydych yn sôn y bydd y bartneriaeth hon yn cymryd agwedd iechyd cyhoeddus tuag at blismona a chyfiawnder troseddol yng Nghymru. Beth mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd?

Mae'r cytundeb hwn yn cydnabod bod Plismona ac Iechyd Cyhoeddus yn perthyn yn agos iawn. Yr Heddlu yw'r ymatebwyr cyntaf i ystod o sefyllfaoedd cymhleth sy'n ymwneud â materion troseddol, sifil a iechyd cyhoeddus. Gwyddom fod llawer o'r hyn y mae'r heddlu'n ymateb iddo yn cael ei gyfeirio at gynnal iechyd a lles, felly mae cymryd agwedd iechyd cyhoeddus yn darparu fframwaith defnyddiol er mwyn deall y ffactorau risg a'r blociau adeiladu i fynd i'r afael â bregusrwydd a chynyddu gwydnwch ar hyd cwrs bywyd.

Nod triniaeth Iechyd Cyhoeddus yw darparu'r budd mwyaf posibl ar gyfer y nifer fwyaf o bobl. Mae'n hyrwyddo'r defnydd o ymchwil gadarn a thystiolaeth i adnabod a monitro'r broblem ac achosion materion ac i ddatblygu a phrofi strategaethau ataliol trwy ddylunio, gweithredu a gwerthuso ymyriadau, gan dynnu ar safbwyntiau aml-asiantaeth ac asedau partneriaid ehangach i gyfrannu'n ddefnyddiol tuag at flaenoriaethau a rennir.

Beth sydd wedi'i gynnwys yn y cytundeb partneriaeth?

Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn amlinellu ymrwymiad i weithio ar y cyd i adeiladu gwydnwch trwy driniaeth iechyd cyhoeddus o blismona a chyfiawnder troseddol yng Nghymru:

- Mae'n amlinellu uchelgais partneriaid i weithio gyda'i gilydd, ar y cyd, i sicrhau newid ar draws y system a darpariaeth gwasanaeth integredig er mwyn gwasanaethu teuluoedd a chymunedau ledled Cymru yn well.
- Cefnogir y cytundeb gan Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Bydd yn sicrhau bod unrhyw newid systemau yn gynaliadwy a bydd yn adeiladu gwydnwch ac yn gwella ansawdd bywyd, lles a diogelwch pobl yng Nghymru yn yr hir dymor.

Sut y caiff llwyddiant y Bartneriaeth ei asesu?

Cynhelir Adolygiad o'r Cytundeb Partneriaeth ddwywaith y flwyddyn gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan. Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

Yn flynyddol, cynhelir adolygiad manylach o weithgareddau'r rhaglen trwy gyfarfod estynedig gydag arweinwyr o bob maes ffrwd waith ac fe'i defnyddir fel cyfle i drosglwyddo gwybodaeth.

Cofnodir cofnodion a chymau gweithredu ar gyfer pob cyfarfod. Rhaid i'r bartneriaeth ddarparu'r adroddiadau i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan, dan arweiniad rôl Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y cyd a bydd yn cynnwys: Datblygiadau ers y cyfarfod diwethaf neu yn ystod cyfnodau a bennwyd gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan; Materion sy'n cael eu rheoli; Materion sy'n gofyn am gyfarwyddyd a chynnydd a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod nesaf.

Beth yw'r prif faterion y mae'r bartneriaeth hon am fynd i'r afael â nhw?

Mae llawer o'r materion sy'n wynebu plismona, cyfiawnder troseddol a sefydliadau iechyd wedi'u gwreiddio mewn anghydraddoldeb, bregusrwydd a thrallod, ac i ddefnyddio cyfatebiaeth iechyd, mae'r tri mater hyn yn heintus. O ganlyniad, mae ein gwasanaethau yn aml yn canolbwyntio ar drin symptomau yn hytrach nag atal yr achosion, a all, erbyn eu cyflwyno i weithwyr proffesiynol rheng flaen, fod yn anwelladwy yn aml. Mae'r symptomau ailadroddus hyn wedi creu set gyffredin o heriau sy'n creu galw anghymesur o uchel ar blismona, cyfiawnder troseddol a chyllidebau ac adnoddau iechyd.

Mae'r cyd-destun polisi a deddfwriaethol yng Nghymru yn cefnogi dulliau newydd o fynd i'r afael â'r materion hyn sydd, yn hanesyddol, yn aml yn ymddangos yn anhydrin.

Yn fyd-eang mae tystiolaeth gref sy'n dangos y gall digwyddiadau trawmatig a brofir yn ystod plentyndod gael effeithiau negyddol hirdymor ar ganlyniadau iechyd a chymdeithasol, gan gynnwys cymryd rhan mewn trais rhyngbersonol yn ddiweddarach mewn bywyd (fel troseddwr a/neu ddiodefwr) a risg uwch o gael eich carcharu. Mae gofawyr a gweithwyr iechyd proffesiynol, athrawon a gweithwyr ieuenctid wedi bod yn ymwybodol o effaith ACEs ers blynnyddoedd lawer, ond heb gynllun i fynd i'r afael â'r materion mewn modd gydlynol, nid yw'r manteision o fynd i'r afael â hwy ar y cyd wedi eu gwireddu.

Faint o arian ac adnoddau ydych chi'n disgwyl ei arbed trwy'r Cytundeb Partneriaeth?

Bydd y Cytundeb hwn yn ein helpu i leihau'r galw ar wasanaethau plismona, cyfiawnder troseddol ac iechyd, a hynny trwy ganolbwyntio ar strategaethau ymyrraeth ac atal cynnar sy'n lleihau'r cynnydd mewn materion (e.e. ail-arestio/cyflwyno bregusrwydd dro ar ôl tro).

Byddwn yn adnabod ac yn mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth, gan osgoi dyblygu adnoddau ac ynni ar draws gwasanaethau wrth reoli materion cylchol, a darparu gwasanaeth ar y cyd sy'n gallu ymateb yn well i anghenion unigolion a chymunedau lleol yng Nghymru, yn enwedig y rhai mwyaf bregus.

A oes yna unrhyw enghreifftiau o'r Cytundeb Partneriaeth yn cael ei weithredu?

O dan Gronfa Arloesi Heddlu'r Swyddfa Gartref, dechreuodd prosiect peilot dwy flynedd o hyd ym mis Mawrth 2016 a dyma'r cyntaf o'i fath i ddefnyddio triniaeth iechyd cyhoeddus hysbysedig ACE gyda'r heddlu a phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â bregusrwydd a risg trwy ymyrraeth gynnar. Roedd hwn yn gydweithrediad rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar gyfer De Cymru, Heddlu De Cymru, NSPCC, Barnardo's a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Nod y prosiect oedd sicrhau bod gan yr heddlu a phartneriaid yr wybodaeth, y sgiliau a'r gefnogaeth gywir i adnabod ac

ymateb yn briodol ac effeithiol i ddangosyddion cynnar o niwed a bregusrwydd trwy lens profiadau niweidiol mewn plentyndod, gan dorri'r cylch cenhedlaeth o drosedd ac anawsterau.

Mae'r dystiolaeth o'r prosiect hwn bellach yn hysbysu Cronfa Trawsnewid yr Heddlu, Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd, sy'n rhedeg ledled Cymru o Fawrth 2018 - Mawrth 2020. Fel Cronfa Arloesi'r Heddlu, mae'r Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd yn bwriadu mynd i'r afael â diffyg ymyrraeth gynnar a gweithgarwch ataliol pan fo Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) a thrawma yn amlwg ac mae teuluoedd mewn perygl o ganlyniadau gwael, a'r effaith gysylltiedig o hyn ar Blismona o ran bregusrwydd a throseddu.

Cyflawnir hyn trwy gymryd agwedd aml-asiantaethol, iechyd cyhoeddus tuag at blismona a chyfiawnder troseddol trwy weithio ar lefel genedlaethol a lleol gyda sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a defnyddio tystiolaeth i ddeall y cyd-destun presennol ac adnabod ymyriadau i fynd i'r afael ag achosion gwreiddiol. Y nod yw creu newid syml mewn agweddau a meddwl ar draws Plismona a Chyfiawnder Troseddol er mwyn galluogi trosglwyddo buddsoddiad i fodel system-gyfan atal yn gyntaf.

Pwy sy'n ariannu'r Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd?

Mae'r Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd wedi'i hariannu gan Gronfa Arloesi Heddlu'r Swyddfa Gartref.

Faint o gyllid y mae'r Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd yn ei dderbyn?

Yn 2017, cyflwynwyd cais cydweithredol Cymru gyfan rhwng y partneriaid i Gronfa Trawsnewid Heddlu'r Swyddfa Gartref am gyfnod o dair blynedd o 2017-2020. Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref fod y cais 'Triniaeth ACE Cenedlaethol tuag at blismona bregusrwydd' yn llwyddiannus a dyfarnwyd £6.87 miliwn tuag ato hyd at fis Mawrth 2020. Mae'r arian hwn wedi ei rannu'n gyfrannol rhwng pob un o'r pedwar Heddlu, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Barnardo's.

Yn logistaidd, sut y bydd hyn yn gweithio gyda chyn gymaint o bartneriaid?

Mae'r tîm Camau Cynnar gyda'n Gilydd yn cynnwys arweinwyr rhaglenni o bob sefydliad, sy'n gyfrifol am ddatblygu cynllun ar gyfer ei gyflwyno yn eu sefydliadau unigol. Mae Bwrdd y Rhaglen, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o Blismona, Cyfiawnder Troseddol a Thrydydd Sector, yn gyfrifol am lywodraethu'r rhaglen, gan gynnwys bodloni amcanion a chyllid.

A fydd unrhyw ailstrwythuro yn y sefydliadau dan sylw?

Nod y rhaglen yw cefnogi gweithlu presennol pob sefydliad ac unrhyw weithwyr newydd i'r sefydliad i fod yn ymwybodol o ACE/trawma, fel y gallant ei gyflwyno i'w harferion presennol. Gwneir hyn trwy ymgysylltu a chyfathrebu â sefydliadau a'u rhanddeiliaid. Dros gyfnod o amser, bydd hyfforddiant wedi ei hysbysu gan ACE yn cael ei ymgorffori ym mhob un o'r pedwar heddlu, gyda'r bwriad o'i gyflwyno i arfer presennol gyda ffocws ar weithio'n wahanol, heb gynyddu llwyth gwaith.

Pa ymchwil sydd wedi'i gynnal/y mae hyn wedi ei seilio arno?

Mae'r rhaglen wedi cymryd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd gan beilot Heddlu De Cymru, treial Heddlu Gogledd Cymru, heddluoedd eraill yn Lloegr, tystiolaeth ryngwladol, ac asesiadau strategol heddlu lleol o angen a phroffiliau problemau.

Wrth symud ymlaen, bydd Camau Cynnar gyda'n Gilydd yn cael ei ymchwilio'n drylwyr gyda sylfaen ar gyfer mesur datblygiad yn cael ei osod ar y cychwyn fel y gellir asesu tystiolaeth a dysg trwy gydol y rhaglen.

A yw arbed adnoddau yn golygu toriadau i blismona?

Nod y rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd yw i helpu pobl a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau o fewn plismona, cyfiawnder troseddol a phartneriaid cyhoeddus a thrydydd sector eraill. Mae'r rhaglen yn cymryd y camau cyntaf i wella'r systemau presennol a sicrhau ymagwedd gydgyssylltiedig a chydweithredol rhwng sefydliadau i hysbysu gweithlu presennol a newydd ynghylch trawma. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i wneud toriadau i blismona na chyfiawnder troseddol, dim ond i wella rôl yr heddlu o bersbectif cyflogai a'r cyhoedd.

**END
DIWE**